cyfrifiad census 2021

# Diweddariad ar Dai o Gyfrifiad 2021

Cyflwyniad i
Grŵp Gwybodaeth Tai Cymru

28 Ionawr 2021

# Agenda

- Trosolwg o Allbynnau'r Cyfrifiad
- Trosolwg o gynlluniau dadansoddi ar gyfer Cyfrifiad 2021
- Setiau Data a Newidynnau Tai'r Cyfrifiad
- Mesur Gorlenwi gan ddefnyddio Data Asiantaeth y Swyddfa Brisio ar Nifer yr Ystafelloedd
- Microdata Tai'r Cyfrifiad
- Camau nesaf

# Trosolwg o Allbynnau'r Cyfrifiad

**Liz McLaren**
Cyd-bennaeth Cangen Allbynnau Cyfrifiad 2021 a'u Lledaenu

# Dull newydd hyblyg, amserol a hygyrch o ymdrin ag allbynnau Cyfrifiad 2021

**Hyblyg**: Ystod ehangach o allbynnau i ddiwallu anghenion amrywiaeth ehangach o ddefnyddwyr. Mwy o reolaeth i ddefnyddwyr greu eu hallbynnau eu hunain.

**Amserol**: Rydym yn anelu at ddarparu allbynnau yn gynt nag ar gyfer Cyfrifiad 2011.

**Hygyrch:** Ar gael mewn ffyrdd sy'n diwallu anghenion defnyddwyr, gyda gwybodaeth ategol er mwyn sicrhau eu bod yn deall y data.

# Cymharu datganiadau allbynnau'r cyfrifiad: 2011 a 2021

| Amser ar ôl Diwrnod y Cyfrifiad (blynyddoedd) | Datganiadau 2011 | Cynlluniau 2021 |
|---|---|---|
| +1 | *Data'r cyfrifiad yn dal i gael eu prosesu* | Allbynnau Cyntaf, Mawrth 2022 |
| +1.5 | Allbynnau Cyntaf, Gorffennaf 2012 | … |
| +2 | Yr holl Ystadegau Cyflym, Mawrth 2013 | Allbynnau Olaf, Mawrth 2013 |
| +2.5 | Yr holl Ystadegau Allweddol, Gorffennaf 2013 | Prif faes i'w wella o gymharu â 2011 |
| +3 | Y rhan fwyaf o'r allbynnau safonol, Mai 2014 | |
| +3.5 | Yr holl Gynhyrchion Microdata, Tachwedd 2014 | |
| +4 | Allbynnau Olaf, Mawrth 2015 | |

# Trosolwg o'r Cynhyrchion

'Safonol'

'Pwrpasol, cyfyngedig neu wedi'u comisiynu'

## Tablau Data

- Tablau Parod
- Tablau y gellir eu haddasu (Newydd ar gyfer 2021)
- Tablau rydych yn eu creu eich hun (Newydd ar gyfer 2021)

- Tarddiad-cyrchfan (Cynnig gwell)
- Allbynnau Poblogaeth Fach, e.e. Cernywaidd, Sicaidd (Cynnig gwell)
- Samplau microdata (Cynnig gwell)

SRS ac UKDS

- Allbynnau wedi'u Comisiynu

## Cynnwys Mwy Cyfoethog (geiriau, lluniau, gwybodaeth)

- Dadansoddiad (Cynnig gwell)
- Proffiliau Ardal (Cynnig gwell)
- Dosbarthiadau Ardal (Cynnig gwell)
- Delweddau Data (Cynnig gwell)

Newydd ar gyfer 2021

Cynnig gwell


Darperir metadata i ategu'r cynhyrchion hyn

# Tablau Data

- Bara menyn Allbynnau'r Cyfrifiad.
- Wedi'u cynhyrchu ers 1801.
- Newidynnau unigol a chroes-ddosbarthiadau o newidynnau lluosog.
- Wedi'u cyfyngu'n hanesyddol am fod angen cael tablau sy'n 'gweithio' ar gyfer pob ardal ac er mwyn cynhyrchu set sy'n diwallu anghenion amrywiaeth o ddefnyddwyr gwahanol yn y ffordd orau.
- Cânt eu cynhyrchu ar gyfer amrywiaeth o seiliau poblogaeth (gan gynnwys y boblogaeth breswyl arferol).

# Datblygiadau Arloesol ar gyfer 2021

- Bydd y tablau 'parod' yn debyg i'r hyn a gynhyrchwyd yn draddodiadol, gyda'r gallu i ddefnyddwyr 'Greu eu Rhai eu Hunain'.



# Tablau Parod

- Tebyg o ran cysyniad i'r rhai a gynhyrchwyd yn 2011 a chyn hynny.
- Byddwn yn ymgynghori arnynt er mwyn cytuno ar fanylion y tabl.
- Y bwriad ar hyn o bryd yw cynnig set yn seiliedig ar y Tablau Nodweddion Lleol, Ystadegau Allweddol ac Ystadegau Cyflym a gynhyrchwyd yn 2011 (gydag ychwanegiadau a newidiadau).
- Y bwriad yw y byddai'r tablau hyn ar gael ar gyfer pob ardal ddaearyddol ar lefel benodol (h.y. darpariaeth gyffredinol).

# Tablau Rydych yn Eu Creu Eich Hun

- Defnyddwyr i ofyn am eu cyfuniadau eu hunain o newidynnau i gynhyrchu setiau data sy'n diwallu eu hanghenion penodol.
- Mae'r adnodd yn creu tablau'n gyflym iawn ac yn defnyddio dulliau rheoli datgelu a gwirio yn awtomatig.
- Mae'r gwirio hwnnw yn pennu ar gyfer pa ardaloedd y gellir darparu'r tabl y gofynnwyd amdano – a gellir cynhyrchu tablau ar gyfer 'clytwaith' o ardaloedd.

# Prototeip yr Adnodd Creu Tablau Hyblyg

Office for National Statistics | **CENSUS DATA** PROTOTYPE FLEXIBLE TABLE BUILDER

## Find and explore Census data


Explore our Census data by browsing ready-made tables or by creating your own custom table.

Find ready-made tables

Search and filter our selection of commonly requested tables.

Create a custom table

Use our flexible table builder to do your own multi-variate analysis.


Office for National Statistics
CENSUS DATA PROTOTYPE FLEXIBLE TABLE BUILDER
LOGOUT
1 Dataset
2 Geographic Area
3 Geographic Level
4 Variables
5 Data
Choose geographic area
Search for Merged Local Authority
Population > England > North East
Merged Local Authority | Add all | Remove all
Hartlepool
Browse 1 sub-area
Middlesbrough
Browse 1 sub-area
Redcar and Cleveland
Browse 1 sub-area
Save and continue
Your table
Cell count: 1
Dataset: People with Households: England and Wales
Geographic area: Hartlepool
Geographic level: None selected
Variables: None selected

# Choose your variables

Search available variables

- [x] Age of individual
  - ( ) 2 categories
  - (•) 4 categories
  - ( ) 6 categories
  - ( ) 8 categories
  - ( ) 14 categories
  - ( ) 18 categories
  - ( ) 21 categories

**Save and continue**

## Your table

**Cell count:** 4

**Dataset:** People with Households: England and Wales

**Geographic area:** Hartlepool

**Geographic level:** Local Authority

**Variables:** Age of individual (4 categories)

**Data confidentiality**

100%

**1 out of 1 areas** pass confidentiality checks.

- [ ] Country of birth of household reference person
- [ ] Distance travelled to work
- [ ] Economic activity
- [ ] English proficiency
- [x] Ethnic group
  - ( ) 3 categories
  - ( ) 6 categories
  - (•) 8 categories
  - ( ) 19 categories

**Save and continue**

## Your table

**Cell count:** 320

**Dataset:** People with Households: England and Wales

**Geographic area:** Hartlepool

**Geographic level:** Local Authority

**Variables:** Age of individual (4 categories), Country of birth (10 categories), Ethnic group (8 categories)


**Data confidentiality**

100%

**1 out of 1 areas** pass confidentiality checks.

# Tablau y gellir eu haddasu

- Mae’r syniad hwn yn fwy cysyniadol ac nid yw wedi’i brofi na’i ddatblygu eto.
- Mae’r cysyniad yn galluogi defnyddwyr i ‘addasu’ tabl parod
  (er enghraifft, cynyddu pa mor fanwl yw newidyn yn y tabl hwnnw).
- Rydym yn arbennig o awyddus i gael adborth defnyddwyr ar y cysyniad hwn.



# Rheoli Datgelu Ystadegol

- Bydd dull aml-haen o reoli datgelu ystadegol yn golygu y bydd modd darparu allbynnau hyblyg a chyfrinachol yn gynt, gan ddefnyddio dull seiliedig ar glytwaith o ardaloedd lle mae'r data yn cefnogi'r lefel honno o fanylder.

| 1. Proses Cyfnewid Cofnodion wedi'i Thargedu | 2. Newid Allweddi Celloedd (Perturbation) | 3. Gwiriadau Datgelu Awtomataidd |
|---|---|---|
| Ansicrwydd | Sŵn | Gwiriadau |
| Diogelu unigolion a chartrefi unigryw | Diogelu rhag gwahaniaethu (differencing) | Diogelu rhag teneurwydd a datgeliadau |

- Y 'gost' yw y bydd gwahaniaethau bach rhwng tablau (cyfansymiau anghyson).

# ‘Pwrpasol, cyfyngedig neu wedi’u comisiynu’

Safonol

Pwrpasol, cyfyngedig neu wedi’u comisiynu

Tarddiad-Cyrchfan

Allbynnau Poblogaeth Fach, e.e. Cernywaidd, Sicaidd

Samplau microdata

SRS ac UKDS

Allbynnau wedi’u comisiynu

Cynnig gwell

Adeiladu ar [setiau o dablau a gynhyrchwyd o Gyfrifiad 2011] ac yn awyddus i ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn deall anghenion a dylunio cynhyrchion addas.


Mae’r cynlluniau’n debyg i 2011 ond caiff ffeil microdata ar gyfer cartrefi wedi’i diogelu ei hychwanegu a bydd darpariaeth mewn fformat IPUMS.

Bydd y gwasanaeth presennol ar gyfer comisiynu allbynnau’r cyfrifiad nad ydynt eisoes ar gael i’r cyhoedd yn parhau.

Adeiladu ar gynhyrchion 2011 gyda mwy o ffocws ar gynhyrchion sy’n hygyrch i’r cyhoedd, yn ogystal â’r tablau data manylach.

# Cynnwys Mwy Cyfoethog

- Gellir dadlau y bydd hyd yn oed mwy o gyfleoedd i ddarparu mwy o werth i ddefnyddwyr presennol a defnyddwyr newydd drwy gynhyrchion newydd ac arloesol.
- Ystyried newidiadau o ran cynhyrchion y gellid eu darparu a sut y gellir eu creu hefyd.



# Dyddiadau Allweddol

| Dyddiad | Gweithgarwch |
| --- | --- |
| Tachwedd/Rhagfyr 2020 | Ymgynghoriad ffurfiol ar Ddaearyddiaeth Allbwn Cyfrifiad 2021 |
| 21 Mawrth 2021 | Diwrnod y Cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr |
| Gwanwyn/Haf 2021 | Ymgynghoriad ffurfiol ar allbynnau Cyfrifiad 2021 |
| Hydref/Gaeaf 2021 | Cyhoeddi'r Prosbectws Allbynnau (gan gynnwys amserlen rhyddhau ddangosol) |
| Mawrth 2022* | Rhyddhau'r gyfres gyntaf o ystadegau'r cyfrifiad |
| Mawrth 2022* – Mawrth 2023* | Cyfnod rhyddhau prif allbynnau Cyfrifiad 2021 (Cymru a Lloegr) |
| Mawrth 2023* | Cwblhau prif allbynnau Cyfrifiad 2021 (Cymru a Lloegr) |
| Diwedd 2023/ dechrau 2024 | Rhyddhau allbynnau'r cyfrifiad ar gyfer y Deyrnas Unedig |

* Dyddiadau targed

# Dolenni defnyddiol

- Tudalennau gwe allbynnau Cyfrifiad 2021
- Cofrestrwch i gael y wybodaeth ddiweddaraf am Gyfrifiad 2021 drwy GovDelivery
- Cymerwch ran mewn gwaith ymchwil yn ymwneud ag allbynnau defnyddwyr Cyfrifiad 2021 drwy e-bostio: census.outputs@ons.gov.uk

# Cwestiynau?

# Trosolwg o gynlluniau dadansoddi ar gyfer Cyfrifiad 2021

**Julian Buxton**

Tîm Cydgysylltu Dadansoddiadau'r Cyfrifiad

# Amlinelliad

Trosolwg o gynlluniau dadansoddi ar gyfer Cyfrifiad 2021:


- Tîm Cydgysylltu Dadansoddiadau'r Cyfrifiad SYG
- Ein Cynllun Dadansoddi ar gyfer y Cyfrifiad
- Cynigion ar gyfer ymchwil tai
- Syniadau ar gyfer delweddu data

# Tîm Cydgysylltu Dadansoddiadau’r Cyfrifiad

Mae’r tîm yn gyfrifol am reoli’r gwaith o gyflwyno rhaglen waith ddadansoddol ar gyfer Cyfrifiad 2021 mewn perthynas â holl feysydd pwnc y cyfrifiad:

- Gweithio gyda’n 12 o arweinwyr ar gyfer Pynciau’r Cyfrifiad
- Rhoi gwybodaeth i’n defnyddwyr a’n rhanddeiliaid
- Helpu i ddeall a dehongli data’r cyfrifiad
- Defnyddio ffynonellau data eraill er mwyn taflu mwy o oleuni ar gymdeithas

# Cynllun Dadansoddi’r Cyfrifiad


census 2021

Topic Group

Research Proposal

Purpose of Research

Research Owners

Interested Users / Stakeholders

User Personas

Data Source

Methodology

Topic Group

Health

Research Proposal

Local Authority Variations in Self-Assessed General Health, England and Wales, 2021

Purpose of Research

The purpose of this research is to evaluate the self-assessed general health of each local authority in England and Wales. This analysis will form the overview of self-assessed general health from which investigations into specific characteristics will be developed. The analysis will provide insight into the standard of health in each area of England and Wales and enable policy makers and governments to assess the funding and support each geography needs to support their population. The research will also compare the results of Census 2021 with those of the 2011 Census to identify trends in general health across England and Wales.

Research Owners

Census Topic Team

Grade 7 Sponsor
David Ainslie / Sophie John

Interested Users / Stakeholders

**Central and local government**
The analysis will be of primary importance to central and local government. By providing analysis of the condition of health for populations from national to local levels, governments can more efficiently assign resources and assess the requirements of particular geographies. In addition, governments will be able to identify trends in public health and determine whether policy and legislation is proving effective in improving public health.

**Service providers**
The research will be of particular use to service providers. The report will provide valuable data on the ongoing situation across geographies and assist in the preparation and coordination of plans to manage public health going forward. The data and analysis will also be a valuable tool to assist providers understand their circumstances in comparison to other geographies and assess whether they require further funding or provisions. The analysis produced may also be of use in the discussions held to secure this funding.

**Charities**
The analysis which is focused on potential health inequality between age groups and deprivation levels will be of interest to charities. Such information will inform strategies going forward and help determine areas of concern. The materials produced by the ONS, such as the infographic and interactive map, will also be of value in helping charities communicate the reality of public health across England and Wales with parties both internal and external to them.

Rydym yn datblygu cynllun dadansoddi hyblyg gan ystyried y canlynol:

- Ymrwymiadau a wnaed yn y Papur Gwyn ac mewn mannau eraill
- Cwestiynau polisi allweddol ac anghenion defnyddwyr (a nodir drwy weithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid)

# Cynigion Ymchwil ar gyfer Tai

- Dadansoddiad ar lefelau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys awdurdodau lleol (ALlau)
- Llunio adroddiadau/erthyglau dadansoddi a phecynnau briffio byr gyda phrif ganfyddiadau, mapiau a thablau data
- Defnyddio ffynonellau data eraill
- Defnyddio ffyrdd newydd a gwreiddiol o gyflwyno data

# 1. Tai, 2011 i 2021

- Darparu trosolwg o ddata ar dai yn 2011 a 2021 ar lefel genedlaethol er mwyn tynnu sylw at unrhyw newidiadau dros y 10 mlynedd diwethaf.
- Bydd ein dadansoddiad yn ystyried y prif newidynnau mewn perthynas â thai (e.e. deiliadaeth, math o gartref, gwres canolog), gan ddarparu ystadegau disgrifiadol syml.

# 2. Deiliadaeth a math o gartref yn ôl statws iechyd, 2021

- Dadansoddi gwahaniaethau o ran deiliadaeth a math o gartref yn ôl statws iechyd, ar gyfer dosbarthau awdurdodau lleol.
- Bydd hyn yn helpu i nodi a oes cysylltiad rhwng tai ac iechyd.
- Gallai'r dadansoddiad hwn hefyd gwmpasu newidynnau tai eraill (gwres canolog a gorlenwi).

# 3. Tueddiadau mewn math o wres canolog ar gyfer ardaloedd bach, 2011 i 2021

- Dadansoddi dosbarthiad y mathau gwahanol o wres canolog ar gyfer ardaloedd bach er mwyn nodi ardaloedd lle mae'r stoc dai o ansawdd gwael.
- Cymharu ffigurau 2021 a 2011 o ran anheddau nad oes ganddynt wres canolog, nifer yr anheddau nad oedd ganddynt wres canolog sydd bellach wedi gosod gwres canolog a'r defnydd cyffredinol o ffynonellau ynni "adnewyddadwy".

# 4. Tanfeddiannu a gorlenwi yn ôl nodweddion y cartref, fesul ALl, 2021

- Dadansoddi amrywiadau mewn tanfeddiannu/gorlenwi (gan ddefnyddio nifer yr ystafelloedd gwely) ar draws dosbarthau awdurdod lleol, yn ôl nodweddion y cartref.
- Gallai'r rhain gynnwys cyfansoddiad y cartref, maint y cartref, ethnigrwydd/oedran/swydd Person Cyswllt y Cartref.


# Cynigion ymchwil eraill


- Deiliadaeth yn ôl nodweddion y cartref, fesul ALl.
- Deiliadaeth yn ôl nodweddion yr eiddo, fesul ALl.
- Tueddiadau o ran math o gartref fesul ALl.
- Tueddiadau o ran math o wres canolog ar gyfer ardaloedd bach, 2011 a 2021.

# Cynigion ymchwil eraill (parhad)

- Tanfeddiannu a gorlenwi yn ôl nodweddion yr eiddo, fesul ALl.
- Arwynebedd llawr fesul person yn ôl nodweddion yr eiddo, fesul ALl.
- Nifer yr ail gartrefi fesul ALl.
- Nifer yr anheddau gwag fesul ALl.


# Prototeipiau Delweddu Data





Mapio
*dasymetric*
a
dwysedd dotiau


# Prototeipiau Delweddu Data





Map sgrolio a dadansoddiad ardal fach

# Prototeipiau Delweddu Data





[Map sgrolio](bothness.github.io/census-scrolly/)

# Prototeipiau Delweddu Data





Map sgrolio

# Prototeipiau Delweddu Data




Map sgrolio

# Prototeipiau Delweddu Data




[Map sgrolio](https://bothness.github.io/census-scrolly/)

# Amserlen Dadansoddi’r Cyfrifiad

- 21 Mawrth 2021: Diwrnod y Cyfrifiad
- Gwanwyn 2021*: Cyhoeddi cynlluniau dadansoddi amlinellol
- Hydref 2021*: Cyhoeddi cynlluniau dadansoddi manylach
- Mawrth 2022*: Rhyddhau'r gyfres gyntaf o ystadegau'r cyfrifiad
- Haf 2022 i Haf 2025*: cyhoeddi allbynnau’r cyfrifiad, gan gynnwys adroddiadau dadansoddi, tablau data, mapiau a phecynnau briffio byr.

*Dyddiadau targed

# Cwestiynau?

# Setiau Data a Newidynnau Tai'r Cyfrifiad

**Claire Rayner**

Dylunio Cynnwys Allbynnau – Allbynnau Cyfrifiad 2021 a'u Lledaenu

Claire.Rayner@ons.gov.uk

# Allbynnau Tai Cyfrifiad 2021

- Crëwyd 118 o dablau yn ymwneud â phynciau tai yn 2011
- Y pynciau mwyaf poblogaidd ar gyfer croesdablu â newidynnau tai:
  - Ethnigrwydd a Chrefydd
  - Plant dibynnol
  - Iechyd/Anabledd
  - Cyfansoddiad y cartref

- Bydd rhai newidynnau tai ar gael yn yr Adnodd Creu Tablau Hyblyg er mwyn i ddefnyddwyr allu creu allbynnau pwrpasol, ond hefyd ail-greu 2011 â data 2021

# Tablau Tai o 2011 sy'n Benodol i Gymru

| | |
|---|---|
| **DC2401WA** | Nifer y bobl a all siarad Cymraeg yn ôl maint y cartref |
| **DC2402WA** | Y gallu i siarad Cymraeg yn ôl deiliadaeth ac oedran – Person Cyswllt y Cartref |
| **DC2403WA** | Sgiliau iaith Gymraeg yn ôl deiliadaeth ac oedran – Person Cyswllt y Cartref |
| **LC2401WA** | Nifer y bobl a all siarad Cymraeg yn ôl maint y cartref |
| **LC2402WA** | Y gallu i siarad Cymraeg yn ôl deiliadaeth – Person Cyswllt y Cartref |
| **LC2403WA** | Sgiliau iaith Gymraeg yn ôl deiliadaeth – Person Cyswllt y Cartref |

# Newidynnau Tai 2021 (safonol)

| Mnemonig 2021 | Disgrifiad 2021 |
|---|---|
| Accommodation_Type | Math o gartref |
| Self_Contained | Hunangynhwysol |
| Number_Bedrooms | Nifer yr ystafelloedd gwely |
| VOA_Number_Of_Rooms | Nifer ystafelloedd Asiantaeth y Swyddfa Brisio |
| Heating_Type | Gwres canolog |
| Ownership_Type | Math o ddeiliadaeth |
| Landlord | Math o landlord |
| Number_of_Cars | Nifer y ceir |
| Number_of_Residents | Nifer y bobl sydd fel arfer yn byw yn y cartref |
| Alternative_Address | Manylion ail gyfeiriad<br>(gan gynnwys cyfeiriad, cod post ac ati) |

# Newidynnau Tai Deilliedig 2021

| | | |
|---|---|---|
| HH_SIZE | Maint y cartref | |
| SECOND_ADDRESS_OA | Ardal allbwn yr ail gyfeiriad | |
| HH_SPACE_OCCUPANCY | Meddiannaeth cartrefi | |
| CE_MANAGEMENT_TYPE | Rheolwyr sefydliad cymunedol a math o sefydliad | |
| HH_SPACES_SHARED_DWELLING | Nifer y cartrefi mewn anheddau a rennir | |
| HH_TENURE | Deiliadaeth y cartref | |
| DWELLING_OCCUPANCY | Meddiannaeth yr annedd | |
| HH_PERSONS_PER_BEDROOM | Nifer y bobl fesul ystafell wely mewn cartref | |
| NON_TERMTIME_OA | Ardal allbwn lleoliad y tu allan i dymor yr ysgol | |
| HH_PERSONS_PER_ROOM | Nifer y bobl fesul ystafell | |
| DWELLING_ROOMS | Nifer yr ystafelloedd mewn annedd | |
| ENUMERATION_ADDRESS_OA | Ardal allbwn y cyfeiriad cyfrifo | |
| OCCUPANCY_RATING_ROOMS & OCCUPANCY_RATING_BEDROOMS | Graddfa feddiannaeth (ystafelloedd/ystafelloedd gwely) | |
| HH_DEPRIVATION_HOUSING | Amddifadedd tai | |
| NATIONAL_PARK_ADDRESS | Parc Cenedlaethol y Cyfeiriad Cyfrifo | |
| NATIONAL_PARK_SECOND_ADDRESS | Parc Cenedlaethol yr Ail Gyfeiriad | |
| DWELLING_NUMBER | Rhif yr annedd | |
| HH_ROOMS_REQUIRED | Ystafelloedd sy'n ofynnol | |
| HH_BEDROOMS_REQUIRED | Ystafelloedd gwely sy'n ofynnol | |
| STUDENT_ACCOMMODATION | Cartrefi myfyrwyr | |
| HH_MULTI_OCCUPANCY | Dangosydd tai amlfeddiannaeth | → **Newydd ar gyfer 2021** |
| DWELLING_TENURE | Deiliadaeth yr annedd | |

# Cwestiynau am Dai


Y cwestiynau a ddefnyddir i gasglu data ar y pwnc tai yw:

- y math o gartref ac a yw'n hunangynhwysol
- nifer yr ystafelloedd gwely
- math o wres canolog
- deiliadaeth a math o landlord
- nifer y ceir neu'r faniau

*ceir manylion mwy penodol am ymgysylltiad a phenderfyniadau o ran dyluniad cwestiynau ar wefan SYG.

# Nifer yr Ystafelloedd Gwely

- Yn 2011, roedd yn rhan o'r cwestiwn am 'Ystafelloedd ac Ystafelloedd Gwely'
- Yn 2021, bydd yn gwestiwn ar wahân:


**H9** Sawl ystafell wely sydd at ddefnydd aelodau o'r cartref hwn yn unig?

➔ Dylech gynnwys pob ystafell a gafodd ei hadeiladu neu ei throi i'w defnyddio fel ystafell wely

☐☐ Nifer yr ystafelloedd gwely


**H9** How many bedrooms are available for use only by this household?


➔ Include all rooms built or converted for use as bedrooms

☐☐ Number of bedrooms

- Dim effaith ar allbynnau'r cyfrifiad; bydd yn parhau i arwain at gyfrif syml ar gyfer y mnemonig 'Number_Bedrooms' (Nifer yr Ystafelloedd Gwely)


# Nifer y Ceir neu'r Faniau

- Yn 2011, gallai ymatebwyr roi tic wrth ymyl dim un, 1, 2, 3 neu 4 neu fwy
- Cwestiwn 2021:


**H14** Sawl car neu fan sy'n eiddo i aelodau o'r cartref hwn, neu sydd ar gael i'w defnyddio ganddynt?

➔ Dylech gynnwys unrhyw geir neu faniau cwmni sydd ar gael at ddefnydd preifat

- ☐ Dim un
- ☐ 1
- ☐ 2
- ☐ 3
- ☐ 4
- ☐ 5 neu fwy, nodwch y nifer


**H14** In total, how many cars or vans are owned, or available for use, by members of this household?

➔ Include any company cars or vans available for private use

- ☐ None
- ☐ 1
- ☐ 2
- ☐ 3
- ☐ 4
- ☐ 5 or more, write in number

Dim effaith sylweddol ar allbynnau; bydd yn parhau i fod yn gyfrif syml o nifer y ceir/faniau sydd ar gael i aelodau'r cartref

# Math o Gartref

- Ymateb “yn rhan o adeilad arall wedi’i addasu” wedi cael ei ychwanegu
- Categori cyfatebol wedi cael ei ychwanegu at y newidyn ‘Accommodation_Type’ ar gyfer allbynnau

**H7** Pa fath o gartref yw hwn?

Tŷ neu fyngalo cyfan sydd:

- ☐ yn adeilad ar wahân
- ☐ yn dŷ neu fyngalo semi
- ☐ mewn teras (gan gynnwys ar y pen)

Fflat neu maisonette sydd:

- ☐ mewn bloc o fflatiau neu denement a adeiladwyd yn bwrpasol
- ☐ yn rhan o dŷ wedi’i addasu neu o dŷ sy’n cael ei rannu (gan gynnwys fflatiau un ystafell)
- ☐ yn rhan o adeilad arall wedi’i addasu (er enghraifft, hen ysgol, eglwys neu warws)
- ☐ mewn adeilad masnachol (er enghraifft, mewn adeilad o swyddfeydd, gwesty, neu uwchben siop)

Cartref symudol neu dros dro:

- ☐ Carafán neu fath arall o gartref symudol neu dros dro

**H7** What type of accommodation is this?

A whole house or bungalow that is:

- ☐ detached
- ☐ semi-detached
- ☐ terraced (including end-terrace)

A flat, maisonette or apartment that is:

- ☐ in a purpose-built block of flats or tenement
- ☐ part of a converted or shared house (including bedsits)
- ☐ part of another converted building (for example, former school, church or warehouse)
- ☐ in a commercial building (for example, in an office building, hotel, or over a shop)

A mobile or temporary structure:

- ☐ a caravan or other mobile or temporary structure

| | Newidyn ‘Accomodation_Type’ |
|---|---|
| 1 | Adeilad ar wahân |
| 2 | Tŷ neu fyngalo semi |
| 3 | Mewn teras (gan gynnwys ar y pen) |
| 4 | Mewn bloc o fflatiau neu denement a adeiladwyd yn bwrpasol |
| 5 | Yn rhan o dŷ wedi’i addasu neu o dŷ sy’n cael ei rannu (gan gynnwys fflatiau un ystafell) |
| 6 | Yn rhan o adeilad arall wedi’i addasu (er enghraifft, hen ysgol, eglwys neu warws) |
| 7 | Mewn adeilad masnachol (er enghraifft, mewn adeilad o swyddfeydd, gwesty, neu uwchben siop) |
| 8 | Carafán neu fath arall o gartref symudol neu dros dro |

# Math o Wres Canolog

Mae nifer yr ymatebion wedi cynyddu:

- wedi gwahanu “prif gyflenwad nwy” o fathau eraill o nwy er mwyn nodi ardaloedd a allai gael budd o ehangu’r grid nwy
- wedi gwahanu “coed” o fathau eraill o danwydd solet er mwyn helpu i fonitro nodau datgarboneiddio
- wedi ychwanegu systemau gwresogi “ynni adnewyddadwy” er mwyn monitro’r nifer cynyddol o bobl sy’n defnyddio’r math hwn o wres canolog
- Wedi ychwanegu “Rhwydweithiau gwres rhanbarthol neu gymunedol”

Gall ymatebwyr ddewis sawl ymateb (pob un sy’n berthnasol) a chaiff y rhain eu codio fel llinyn deuaidd.

# Math o Wres Canolog (parhad)

Bydd y newid i'r cwestiwn **yn** effeithio ar allbynnau.

| | |
|---|---|
| 1 | Dim gwres canolog |
| 2 | Prif gyflenwad nwy yn unig |
| 3 | Nwy tanc neu botel yn unig |
| 4 | Trydan (gan gynnwys gwresogyddion stôr) yn unig |
| 5 | Olew yn unig |
| 6 | Coed (er enghraifft, boncyffion, pren gwastraff neu belenni) yn unig |
| 7 | Tanwydd solet (er enghraifft, glo) yn unig |
| 8 | Ynni adnewyddadwy (er enghraifft, pympiau gwres neu solar thermol) yn unig |
| 9 | Rhwydweithiau gwres rhanbarthol neu gymunedol yn unig |
| 10 | Math arall o wres canolog |
| 11 | Dau fath o wres canolog neu fwy (heb gynnwys ynni adnewyddadwy) |
| 12 | Dau fath o wres canolog neu fwy (gan gynnwys ynni adnewyddadwy) |

# Data Asiantaeth y Swyddfa Brisio ar Ystafelloedd

- Defnydd sylweddol cyntaf o ddata gweinyddol yn un o setiau data'r cyfrifiad i ddisodli'r cwestiwn yn y cyfrifiad am 'Ystafelloedd'
- Nid yw'n cynnwys ceginau a oedd wedi'u cynnwys yn y cwestiwn safonol am Ystafelloedd yn 2011
- Gwahaniaethau o ran allbynnau mewn perthynas ag ystafelloedd sy'n ofynnol, graddfa feddiannaeth a mesurau amddifadedd
- Ceisio bod yn gyson â 2011 er mwyn gallu cymharu
- Mae'r tîm tai wedi bod yn gweithio gyda MARP a MCHLG ar gynigion a bydd Stephan yn rhoi rhagor o wybodaeth yn ystod ei gyflwyniad

# Unrhyw ofynion newydd neu wahanol ar gyfer 2021?

- Unrhyw groesdablau newydd â newidynnau tai?
- Unrhyw dablau tai newydd sy’n benodol i Gymru?
- Unrhyw newidiadau yn y sector tai y mae angen i ni fod yn ymwybodol ohonynt?

Cysylltwch â ni: census.outputs@ons.gov.uk

# Cwestiynau?

# Mesur Gorlenwi gan ddefnyddio data Asiantaeth y Swyddfa Brisio ar nifer yr ystafelloedd yng Nghyfrifiad 2021

**Stephan Tietz**
Arweinydd Nodweddion Tai Gweinyddol
@stephantietz

**Joe Herson**
Ystadegau Cymdeithasol – Trawsnewid, Dadansoddi ac Ymchwil


# Data Asiantaeth y Swyddfa Brisio ar nifer yr ystafelloedd

# Data Asiantaeth y Swyddfa Brisio ar briodweddau eiddo

- Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn gyfrifol am osod bandiau'r Dreth Gyngor ar gyfer eiddo preswyl
- Mae'r set ddata yn cynnwys gwybodaeth am briodweddau eiddo yn unig
  e.e. math o eiddo, nifer yr ystafelloedd (gwely), oed yr eiddo, arwynebedd llawr
- Mae SYG bellach yn cael diweddariadau data rheolaidd (ers 2016)

# Defnyddio data Asiantaeth y Swyddfa Brisio ar gyfer nifer yr ystafelloedd

- Ymchwil ddichonoldeb 2017
- Gwahaniaeth diffiniol rhwng Cyfrifiad 2011 a nifer yr ystafelloedd Asiantaeth y Swyddfa Brisio:
  - Yn bennaf am fod y cyfrifiad yn cynnwys ceginau; nid yw Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn eu cynnwys
- Mae data Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn addas i ddisodli cwestiwn y cyfrifiad am nifer yr ystafelloedd



Ffynhonnell: Asiantaeth y Swyddfa Brisio a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol

# Adborth gan ddefnyddwyr

- Caiff nifer yr ystafelloedd gwely ei ddefnyddio fwy na nifer yr ystafelloedd
- Mae’r gofyniad ar gyfer nifer yr ystafelloedd ar gyfer tanfeddiannu a gorlenwi
  - Y Safon Ystafelloedd Gwely (gan ddefnyddio nifer yr ystafelloedd gwely) a ddefnyddir fwyaf fel rheol
- Mae ansawdd y data o ran nifer yr ystafelloedd gwely yn well nag ar gyfer y cwestiwn am nifer yr ystafelloedd
  - Ffynhonnell: [Arolwg Ansawdd y Cyfrifiad]

# Papur Gwyn Cyfrifiad 2021

- Roedd Papur Gwyn Cyfrifiad 2021 yn argymell:
    1) Y dylid cadw'r cwestiwn am nifer yr ystafelloedd gwely a dileu'r cwestiwn am nifer yr ystafelloedd er mwyn lleihau'r baich ar ymatebwyr.
    2) Y dylai SYG barhau i weithio gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio i ystyried dichonoldeb ategu cwestiynau'r cyfrifiad gan ddefnyddio data gweinyddol ar gyfanswm nifer yr ystafelloedd, ardaloedd byw a math o eiddo.

# Ymchwil bellach ers hynny

- Sicrhau ansawdd data Asiantaeth y Swyddfa Brisio a ddefnyddir yng Nghyfrifiad 2021
    - Mae'r erthygl yn crynhoi'r gwaith prosesu a sicrhau ansawdd a wneir gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio a SYG
- Ystyrir a yw dull golygu a phriodoli safonol y cyfrifiad (h.y. CANCEIS) yn addas ar gyfer nifer yr ystafelloedd Asiantaeth y Swyddfa Brisio
    - Mae angen priodoli er mwyn mynd i'r afael â cholledigrwydd (am fod gwerthoedd ar goll yn nata Asiantaeth y Swyddfa Brisio neu o ganlyniad i fethu â chysylltu â'r cyfrifiad)
    - Mae crynodeb ac erthygl ar y fethodoleg ar gael


admin.based.characteristics@ons.gov.uk

# Crynodeb

- Bydd data Asiantaeth y Swyddfa Brisio ar nifer yr ystafelloedd ar gyfer Cyfrifiad 2021 yn darparu mesur cymharol o faint sydd o ansawdd uchel.
- Er enghraifft, bydd modd cymharu cartrefi ar draws ardaloedd o fewn yr un cyfnod.
- Bydd priodoli yn ffafrio data arolwg dros ddata Asiantaeth y Swyddfa Brisio pan fydd anghysondeb.

# Lefelau gorlenwi


Defnyddio data Asiantaeth y Swyddfa Brisio ar nifer yr ystafelloedd

# Graddfeydd meddiannaeth ystafelloedd

- Y nifer damcaniaethol o ystafelloedd a argymhellir ar gyfer cartref minws y nifer gwirioneddol o ystafelloedd sydd ar gael
- Fel arfer, mae graddfa feddiannaeth ystafelloedd Asiantaeth y Swyddfa Brisio 1 yn llai na graddfa feddiannaeth ystafelloedd y cyfrifiad ar lefel y cartref
  - Canolrif = -1 ar gyfer pob awdurdod lleol
  - Mae'r cymedr yn amrywio rhwng -1.7 a -0.6
- Nid yw Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn cynnwys ceginau, ystafelloedd gwydr nac ystafelloedd aml-bwrpas

# Cyfran y cartrefi gorlawn


- Mae'n debygol y bydd cyfran (wedi'i haddasu) y cartrefi gorlawn yn llai
- Mae cartrefi rhent preifat a chymdeithasol yn debyg i'w gilydd
- Mae'r ffyrdd o gasglu data'r cyfrifiad ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio, a dibenion gwneud hyn, yn wahanol



Ffynhonnell: Asiantaeth y Swyddfa Brisio a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol

# Lefelau is-ranbarthol o orlenwi

- Nid yw’r lefel o orlenwi yn gyson is ar draws pob awdurdod lleol
- Mae’r effeithiau yn amrywio ar draws deiliadaeth a math o gartref
- Byddai o leiaf ddau draean o awdurdodau lleol yn cael eu gosod yn yr un drefn
- Gweler y cyhoeddiad am fanylion pellach




**Ffynhonnell: Asiantaeth y Swyddfa Brisio a’r Swyddfa Ystadegau Gwladol**

# Argymhelliad ar gyfer Cyfrifiad 2021

- Bydd cyfrifiad graddfa feddiannaeth ystafelloedd Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn cael ei addasu drwy ychwanegu un ystafell (er mwyn cyfrif am wahaniaeth diffiniol)
- Newidyn newydd y cyfeirir ato fel "graddfa feddiannaeth (nifer yr ystafelloedd Asiantaeth y Swyddfa Brisio)"
- Bydd deilliad Amddifadedd Tai Cartrefi yn aros yr un peth

# Cwestiynau?


admin.based.characteristics@ons.gov.uk

# Microdata'r Cyfrifiad

**Nicola Haines,**
Tarddiad-cyrchfan a Microdata'r Cyfrifiad

# Beth yw microdata'r cyfrifiad?

- Samplau o gofnodion dienw o'r cyfrifiad
- Ar gyfer unigolion a chartrefi
- Maent yn cynnwys llawer o newidynnau
- Cânt eu rhyddhau ar lefelau gwahanol o ddiogelwch: cydbwyso manylion â diogelu cyfrinachedd
- Maent yn galluogi gwaith dadansoddi a chysylltu amlamryweb manwl

# Microdata o Gyfrifiad 2011

Rhyddhawyd 5 cynnyrch microdata.

Roedd yr unig sampl microdata yn ymwneud â chartrefi yn ffeil ddiogel.

| | Ffeil addysgu mynediad cyhoeddus (un ffeil) | Wedi'u diogelu (dwy ffeil) | Diogel (dwy ffeil) |
|---|---|---|---|
| Math o gofnod | Unigolyn | Unigolyn | Unigolyn a Chartref |
| Maint y sampl | Hyd at 1% | Hyd at 5% yr un | Hyd at 10% yr un |
| Lefel ddaearyddol isaf | Rhanbarth | Rhanbarth ac ALlau wedi'u grwpio | ALl |
| Nifer y newidynnau | 18 | Tua 120 | Tua 250 |
| Llwybr mynediad | SYG neu Wasanaeth Data'r Deyrnas Unedig (UKDS) | Cofrestru drwy UKDS (Trwydded Defnyddiwr) neu'r Gwasanaeth Ymchwil Diogel | Ymchwilwyr achrededig: Gwasanaeth Ymchwil Diogel |

# Ffeil wedi'i diogelu arfaethedig newydd am gartrefi ar gyfer 2021

- Er mwyn bodloni gofynion defnyddwyr, rydym yn bwriadu cynhyrchu ffeil wedi'i diogelu am gartrefi ar gyfer 2021
- Maint y sampl: hyd at 1% o gartrefi
- Lefel ddaearyddol isaf: Rhanbarth
- Rydym yn awyddus i glywed a oes unrhyw newidynnau pwysig yr hoffech i ni ystyried eu cynnwys
- Anfonwch newidynnau sydd o ddiddordeb a'r rhesymau dros hyn drwy e-bost i Census.outputs@ons.gov.uk

# Camau Nesaf

**Liz McLaren**
Cyd-bennaeth Cangen Allbynnau Cyfrifiad 2021 a'u Lledaenu

# Dyddiadau Allweddol

| Dyddiad | Gweithgarwch |
|---|---|
| Tachwedd/Rhagfyr 2020 | Ymgynghoriad ffurfiol ar Ddaearyddiaeth Allbwn Cyfrifiad 2021 |
| 21 Mawrth 2021 | Diwrnod y Cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr |
| Gwanwyn/Haf 2021 | Ymgynghoriad ffurfiol ar allbynnau Cyfrifiad 2021 |
| Hydref/Gaeaf 2021 | Cyhoeddi'r Prosbectws Allbynnau (gan gynnwys amserlen rhyddhau ddangosol) |
| Mawrth 2022* | Rhyddhau'r gyfres gyntaf o ystadegau'r cyfrifiad |
| Mawrth 2022* – Mawrth 2023* | Cyfnod rhyddhau prif allbynnau Cyfrifiad 2021 (Cymru a Lloegr) |
| Mawrth 2023* | Cwblhau prif allbynnau Cyfrifiad 2021 (Cymru a Lloegr) |
| Diwedd 2023/ dechrau 2024 | Rhyddhau allbynnau'r cyfrifiad ar gyfer y Deyrnas Unedig |

* Dyddiadau targed

# Dolenni defnyddiol

- Tudalennau gwe allbynnau Cyfrifiad 2021
- Cofrestrwch i gael y wybodaeth ddiweddaraf am Gyfrifiad 2021 yn GovDelivery
- Cysylltwch â ni yn: census.outputs@ons.gov.uk

# Diolch